

ystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn

# Datblygu Chwaraeon (RQF)

601/6256/9

FOCUS AWARDS

# Gwybodaeth Allweddol

Lefel: 3

Sector: Chwaraeon a Hamdden

Math o Gymhwyster: Cymhwyster Galwedigaethol

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 200

Gwerth y Credydau: 20

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 120

Statws: Ar gael i ddysgwyr

Dulliau Asesu: Portffolio tystiolaeth

Isafswm oedran: 16



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Cynnwys


Gwybodaeth Allweddol ........ 2

Diben y Cymhwyster ........ **Error! Bookmark not defined.**

Ystod Oedran ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cwmpas Daearyddol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Gofynion Mynediad i Ddysgwyr ........ **Error! Bookmark not defined.**

Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig ........ 5

Dulliau Asesu ........ 5

Llwybrau Cynnydd ........ **Error! Bookmark not defined.**

Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Strwythur y Cymhwyster ........ **Error! Bookmark not defined.**

Unedau ........ 8


FOCUS AWARDS

# Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Datblygu Chwaraeon (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/6256/9

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 120

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 200

Credydau: 20

## Diben y Cymhwyster:

Mae Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Datblygu Chwaraeon (RQF) wedi'i hanelu at y dysgwyr hynny sy'n gweithio ym maes Datblygu Chwaraeon yn y sector hamdden egnïol, neu sy'n dymuno gweithio yn y maes hwnnw.

Bydd Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Datblygu Chwaraeon (RQF) yn rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd sydd eu hangen ar ddysgwyr i weithio ym maes datblygu chwaraeon yn y sector hamdden egnïol.

## Ystod Oedran:

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 16 oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr:

Nid yw Focus Awards yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond gall y ganolfan bennu neu ofyn am feini prawf ychwanegol.



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig:

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Mae copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Focus Awards yn yr url canlynol: https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

## Dulliau Asesu:

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd:

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 3 Focus Awards mewn Rheoli Hamdden (RQF)
- Diploma NVQ Lefel 3 Focus Awards mewn Rheoli Hamdden (RQF)

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol:

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk

## Strwythur y Cymhwyster:

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn, rhaid i ddysgwyr ennill cyfanswm o 20 credyd. Deg credyd o'r uned orfodol a 10 credyd o'r unedau dewisol sy'n weddill.

## Unedau Gorfodol:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Chwaraeon | H/502/5623 | 3 | 10 | 60 |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Unedau Dewisol:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Asesu Risg mewn Chwaraeon | R/502/5617 | 3 | 10 | 60 |
| Materion Cyfredol mewn Chwaraeon | H/502/5721 | 3 | 10 | 60 |
| Addysg Gorfforol a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc | R/502/5777 | 3 | 10 | 60 |
| Trefnu Digwyddiadau Chwaraeon | F/502/5774 | 3 | 10 | 60 |
| Rheolau, Rheoliadau a Gweinyddu mewn Chwaraeon | K/502/5767 | 3 | 10 | 60 |
| Datblygu Etifeddiaeth Chwaraeon | H/600/0022 | 3 | 10 | 60 |
| Nodi a Datblygu Talent mewn Chwaraeon | L/502/5759 | 3 | 10 | 60 |
| Hyfforddi Chwaraeon | Y/502/5621 | 3 | 10 | 60 |
| Arweinyddiaeth mewn Chwaraeon | K/502/5722 | 3 | 10 | 60 |
| Anafiadau Chwaraeon | R/502/5746 | 3 | 10 | 60 |
| Chwaraeon fel Busnes | Y/502/5781 | 3 | 10 | 60 |

# Unedau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Datblygu Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | H/502/5623 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod cysyniadau, darparwyr a datblygiad chwaraeon allweddol yn ymarferol. Mae'r uned hon hefyd yn cwmpasu sut mae ansawdd yn cael ei fesur ym maes datblygu chwaraeon. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod cysyniadau allweddol ym maes datblygu chwaraeon | 1.1 | Disgrifio tair enghraifft o'r continwwm datblygu chwaraeon, o dair camp wahanol |
| | | 1.2 | Disgrifio rhwystrau i gyfranogiad gan unigolion o dri grŵp targed gwahanol ar wahanol lefelau o'r continwwm datblygu chwaraeon |
| 2 | Gwybod am ddarparwyr allweddol datblygu chwaraeon | 2.1 | Disgrifio strwythurau a rolau tri darparwr datblygu chwaraeon yn y DU |
| 3 | Deall sut mae ansawdd yn cael ei fesur ym maes datblygu chwaraeon | 3.1 | Esbonio dau ddull o fesur ansawdd ym maes datblygu chwaraeon |
| 4 | Gwybod am ddatblygu chwaraeon yn ymarferol | 4.1 | Disgrifio dwy fenter datblygu chwaraeon wahanol |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Unedau Dewisol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Asesu Risg mewn Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | R/502/5617 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod y dylanwadwyr allweddol mewn chwaraeon a'r ffactorau cyfreithiol sy'n dylanwadu ar iechyd a diogelwch, ymgymryd ag asesiad risg a chynnal diogelwch cyfranogwyr mewn amgylchedd chwaraeon. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar iechyd a diogelwch mewn chwaraeon | 1.1 | Disgrifio'r pedwar ffactor deddfwriaethol sy'n dylanwadu ar iechyd a diogelwch mewn chwaraeon |
| | | 1.2 | Disgrifio'r ffactorau cyfreithiol a'r cyrff rheoleiddio sy'n dylanwadu ar iechyd a diogelwch mewn chwaraeon |
| 2 | Gallu cynnal asesiadau risg | 2.1 | Cynnal asesiadau risg ar gyfer dau weithgaredd chwaraeon gwahanol, â chymorth tiwtor |
| 3 | Gwybod sut i gynnal diogelwch cyfranogwyr a chydweithwyr mewn amgylchedd chwaraeon | 3.1 | Disgrifio tair gweithdrefn a ddefnyddir i hybu a chynnal amgylchedd chwaraeon iach a diogel |
| 4 | Gallu cynllunio gweithgaredd chwaraeon diogel | 4.1 | Llunio cynllun ar gyfer cyflawni gweithgaredd chwaraeon dewisedig yn ddiogel ac adolygu'r cynllun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Materion Cyfredol mewn Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | H/502/5721 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod sut mae chwaraeon wedi datblygu yn y DU, sut mae'r cyfryngau a thechnoleg wedi dylanwadu arnynt a deall sut mae dylanwadau diwylliannol a rhwystrau yn effeithio ar gyfranogiad. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod sut mae chwaraeon wedi datblygu yn y Deyrnas Unedig | 1.1 | Disgrifio datblygiad a threfniadaeth camp ddewisedig yn y Deyrnas Unedig |
| 2 | Gwybod sut mae'r cyfryngau a thechnoleg yn dylanwadu ar chwaraeon modern | 2.1 | Disgrifio dylanwad y cyfryngau ar gamp ddewisedig yn y Deyrnas Unedig |
| | | 2.2 | Disgrifio'r effaith y mae technoleg yn ei chael ar gamp ddewisedig |
| 3 | Gwybod sut mae materion cyfoes yn effeithio ar chwaraeon | 3.1 | Disgrifio effeithiau pedwar mater cyfoes ar gamp ddewisedig |
| 4 | Deall y dylanwadau diwylliannol a'r rhwystrau sy'n effeithio ar gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon | 4.1 | Esbonio'r rhwystrau i gyfranogi mewn chwaraeon |
| | | 4.2 | Esbonio tri dylanwad diwylliannol sy'n effeithio ar gyfranogi mewn chwaraeon |
| | | 4.3 | Disgrifio tair strategaeth neu fenter sy'n ymwneud â chyfranogi mewn chwaraeon |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Addysg Gorfforol a Gofalu am Blant a Phobl Ifanc |
| Rhif yr Uned: | R/502/5777 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 |
| Credydau: | 10 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod strwythur addysg gorfforol.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod strwythur addysg gorfforol yn y cwricwlwm | 1.1 | Disgrifio strwythur y cwricwlwm Addysg Gorfforol |
| | | 1.2 | Disgrifio effaith safbwyntiau rhanddeiliaid ar ddatblygiad y cwricwlwm Addysg Gorfforol |
| | | 1.3 | Disgrifio'r ffyrdd y caiff y cwricwlwm ei weithredu |
| 2 | Deall pwysigrwydd addysg gorfforol mewn cymdeithas | 2.1 | Esbonio pwysigrwydd addysg gorfforol i gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc |
| | | 2.2 | Amlinellu pwysigrwydd addysg gorfforol i gymdeithas yn gyffredinol |
| 3 | Gallu strwythuro gwers addysg gorfforol | 3.1 | Cynllunio gwers addysg gorfforol, gan ddisgrifio sut y cefnogir y broses o ddysgu |
| 4 | Gwybod cyfrifoldebau'r rhai sy'n gweithio gyda phlant er mwyn diogelu a hybu eu llesiant, a strategaethau ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac ef ei hun | 4.1 | Disgrifio strategaethau ar gyfer cefnogi diogelwch plant a phobl ifanc |
| | | 4.2 | Disgrifio'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n diogelu plant a phobl ifanc mewn cyd-destun dysgu |
| | | 4.3 | Disgrifio strategaethau i sicrhau ei ddiogelwch ei hun wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Trefnu Digwyddiadau Chwaraeon |
| Rhif yr Uned: | F/502/5774 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 |
| Credydau: | 10 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth drefnu digwyddiadau chwaraeon.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod am wahanol fathau o ddigwyddiadau chwaraeon | 1.1 | Disgrifio tri math gwahanol o ddigwyddiadau chwaraeon, gan ddefnyddio enghreifftiau |
| 2 | Gwybod am rolau a chyfrifoldebau pobl sy'n cymryd rhan mewn cynllunio a darparu digwyddiadau chwaraeon | 2.1 | Disgrifio rolau a chyfrifoldebau pedwar unigolyn sy'n cymryd rhan mewn cynllunio a darparu digwyddiadau chwaraeon |
| 3 | Gallu cynllunio a hyrwyddo digwyddiad chwaraeon | 3.1 | Cynllunio digwyddiad chwaraeon, â chymorth tiwtor |
| | | 3.2 | Llunio deunydd sy'n addas ar gyfer hyrwyddo'r digwyddiad chwaraeon |
| 4 | Gallu cynnal digwyddiad chwaraeon | 4.1 | Cynnal digwyddiad chwaraeon, â chymorth tiwtor, gan ddisgrifio ei rolau a'i gyfrifoldebau ei hun |
| | | 4.3 | Adolygu'r broses o gynllunio a chynnal digwyddiad chwaraeon, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, a gwneud awgrymiadau sy'n ymwneud â datblygiad personol yn y dyfodol |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Rheolau, Rheoliadau a Gweinyddu mewn Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | K/502/5767 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod rheolau, cyfreithiau a rheoliadau camp ddewisedig, rolau a chyfrifoldebau swyddogion a'u perfformiad mewn cysylltiad â champ ddewisedig. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod rheolau, cyfreithiau a rheoliadau camp ddewisedig | 1.1 | Disgrifio rheolau, cyfreithiau a rheoliadau camp ddewisedig |
| 2 | Gwybod rolau a chyfrifoldebau swyddogion sy'n gysylltiedig â champ ddewisedig | 2.1 | Disgrifio rolau a chyfrifoldebau swyddogion mewn camp ddewisedig |
| 3 | Deall perfformiad swyddogion mewn camp ddewisedig | 3.1 | Cymhwyso rheolau, cyfreithiau a rheoliadau camp ddewisedig mewn tair sefyllfa wahanol |
| | | 3.2 | Dyfeisio meini prawf addas ar gyfer dadansoddi perfformiad swyddogion mewn camp ddewisedig |
| | | 3.3 | Dadansoddi perfformiad dau swyddog mewn camp ddewisedig, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella |
| 4 | Gallu gweinyddu'n effeithiol mewn camp ddewisedig | 4.1 | Gweinyddu mewn camp ddewisedig, â chymorth tiwtor |
| | | 4.2 | Adolygu ei berfformiad ei hun o ran gweinyddu mewn camp ddewisedig, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Datblygu Etifeddiaeth Chwaraeon |
| Rhif yr Uned: | H/600/0022 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 |
| Credydau: | 10 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr o ran gwybod egwyddorion allweddol datblygu etifeddiaeth chwaraeon, y broses gynllunio wrth ddatblygu chwaraeon, cynllunio ac adolygu prosiect etifeddiaeth lleol ac effaith bosibl cynnal digwyddiadau byd-eang.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod egwyddorion allweddol datblygu etifeddiaeth chwaraeon | 1.1 | Disgrifio etifeddiaeth chwaraeon a darparu dwy enghraifft genedlaethol a dwy enghraifft leol |
| | | 1.2 | Nodi rôl sefydliadau ac unigolion allweddol mewn cysylltiad â phrosiectau cenedlaethol a lleol |
| 2 | Deall y broses gynllunio sy'n gysylltiedig â rhaglenni datblygu chwaraeon | 2.1 | Esbonio'r broses o gynllunio prosiect etifeddiaeth chwaraeon |
| | | 2.2 | Disgrifio pedair ffynhonnell ariannu ar gyfer prosiectau chwaraeon |
| 3 | Gallu cynllunio ac adolygu prosiect etifeddiaeth chwaraeon lleol | 3.1 | Paratoi cynnig ar gyfer prosiect etifeddiaeth chwaraeon lleol |
| | | 3.2 | Adolygu effeithiolrwydd prosiect etifeddiaeth chwaraeon lleol |
| 4 | Gwybod effaith bosibl cynnal digwyddiadau byd-eang | 4.1 | Disgrifio effaith digwyddiad chwaraeon byd-eang |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Nodi a Datblygu Targed mewn Chwaraeon |
| Rhif yr Uned: | L/502/5759 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 |
| Credydau: | 10 |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth nodi targedau ar gyfer datblygiad mewn chwaraeon. | |

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod rhagfynegyddion allweddol talent ar gyfer perfformwyr mewn chwaraeon | 1.1 | Disgrifio'r gwahanol fathau o dalent |
| | | 1.2 | Disgrifio pum rhagfynegydd talent gwahanol ar gyfer perfformwyr mewn chwaraeon |
| 2 | Gallu dylunio rhaglen nodi talent ar gyfer camp a ddewisir | 2.1 | Disgrifio un rhaglen nodi talent gyfredol mewn camp ddewisedig |
| | | 2.2 | Gan ddefnyddio strwythur safonol, dylunio rhaglen nodi talent ar gyfer camp ddewisedig |
| 3 | Gwybod y ffactorau allweddol mewn cysylltiad â datblygu talent mewn chwaraeon | 3.1 | Gan ddefnyddio enghreifftiau, disgrifio pum ffactor allweddol gwahanol mewn cysylltiad â datblygu talent mewn chwaraeon |
| 4 | Gallu dylunio rhaglen datblygu talent ar gyfer camp a ddewisir | 4.1 | Disgrifio un rhaglen datblygu talent gyfredol mewn camp ddewisedig |
| | | 4.2 | Gan ddefnyddio strwythur safonol, dylunio rhaglen datblygu talent ar gyfer camp ddewisedig |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Hyfforddi Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | Y/502/5621 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth hyfforddi chwaraeon. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod rolau, cyfrifoldebau a sgiliau hyfforddwyr chwaraeon | 1.1 | Disgrifio pedair rôl a phedwar o gyfrifoldebau hyfforddwyr chwaraeon, gan ddefnyddio enghreifftiau o hyfforddwyr o wahanol chwaraeon |
| | | 1.2 | Disgrifio tair sgil sy'n gyffredin i hyfforddwyr chwaraeon llwyddiannus, gan ddefnyddio hyfforddwyr gwahanol chwaraeon fel enghreifftiau |
| 2 | Gwybod y technegau a ddefnyddir gan hyfforddwyr i wella perfformiad athletwyr | 2.1 | Disgrifio tair techneg wahanol a ddefnyddir, gan hyfforddwyr, i wella perfformiad athletwyr |
| 3 | Gallu cynllunio sesiwn hyfforddi chwaraeon | 3.1 | Cynllunio sesiwn hyfforddi chwaraeon |
| 4 | Gallu darparu ac adolygu sesiwn hyfforddi chwaraeon | 4.1 | Darparu sesiwn hyfforddi chwaraeon, â chymorth tiwtor |
| | | 4.2 | Adolygu'r broses o gynllunio a darparu sesiwn hyfforddi chwaraeon, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Arweinyddiaeth mewn Chwaraeon | | |
| Rhif yr Uned: | K/502/5722 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth arwain gweithgareddau chwaraeon. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod rhinweddau, nodweddion a rolau arweinwyr chwaraeon effeithiol | 1.1 | Disgrifio pedair rhinwedd, pedair nodwedd a phedair rôl sy'n gyffredin i arweinwyr chwaraeon effeithiol |
| 2 | Gwybod pwysigrwydd ffactorau seicolegol wrth arwain gweithgareddau chwaraeon | 2.1 | Disgrifio pedwar ffactor seicolegol sy'n bwysig wrth arwain gweithgareddau chwaraeon |
| 3 | Gallu cynllunio gweithgaredd chwaraeon | 3.1 | Llunio asesiad risg ar gyfer gweithgaredd chwaraeon dewisedig |
| | | 3.2 | Llunio cynllun ar gyfer arwain gweithgaredd chwaraeon dewisedig |
| 4 | Gallu arwain gweithgaredd chwaraeon | 4.1 | Arwain gweithgaredd chwaraeon dewisedig, â chymorth tiwtor |
| | | 4.2 | Adolygu perfformiad cyfranogwyr, mewn gweithgaredd, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella |
| | | 4.3 | Adolygu ei berfformiad ei hun wrth gynllunio ac arwain y gweithgaredd chwaraeon, gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Anafiadau Chwaraeon |
| Rhif yr Uned: | R/502/5746 |
| Lefel: | 3 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 |
| Credydau: | 10 |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth ymdrin ag anafiadau chwaraeon a sut i'w trin.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwybod sut i atal anafiadau chwaraeon cyffredin drwy nodi ffactorau risg yn gywir | 1.1 | Disgrifio ffactorau risg anghynhenid a chynhenid mewn cysylltiad ag anafiadau chwaraeon |
| | | 1.2 | Disgrifio mesurau ataliol y gellir eu cymryd er mwyn atal anafiadau chwaraeon rhag digwydd |
| 2 | Gwybod am amrywiaeth o anafiadau chwaraeon a'u symptomau | 2.1 | Disgrifio'r ymatebion ffisiolegol sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o anafiadau chwaraeon |
| | | 2.2 | Disgrifio'r ymatebion seicolegol sy'n gyffredin i anafiadau chwaraeon |
| 3 | Gwybod sut i gymhwyso dulliau o drin anafiadau chwaraeon | 3.1 | Disgrifio'r cymorth cyntaf a'r triniaethau cyffredin a ddefnyddir ar gyfer pedwar math gwahanol o anafiadau chwaraeon |
| 4 | Gallu cynllunio a datblygu rhaglenni triniaeth ac adsefydlu ar gyfer dau anaf chwaraeon cyffredin | 4.1 | Dylunio rhaglen triniaeth ac adsefydlu diogel a phriodol ar gyfer dau anaf chwaraeon cyffredin, â chymorth tiwtor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Chwaraeon fel Busnes | | |
| Rhif yr Uned: | Y/502/5781 | | |
| Lefel: | 3 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 60 | | |
| Credydau: | 10 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y dysgwr wrth drefnu a rhedeg busnes sy'n gysylltiedig â chwaraeon. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gwybod sut mae busnesau mewn chwaraeon yn cael eu trefnu | 1.1 | Disgrifio trefniadaeth dau fusnes chwaraeon gwahanol |
| 2 | Gwybod beth sy'n gwneud busnes chwaraeon llwyddiannus | 2.1 | Disgrifio trefniadaeth dau fusnes chwaraeon gwahanol |
| 3 | Gwybod y dylanwadau cyfreithiol ac ariannol ar chwaraeon fel busnes | 3.1 | Disgrifio tri dylanwad cyfreithiol ar fusnes chwaraeon |
| | | 3.2 | Disgrifio llif arian sylfaenol ar gyfer busnes dewisedig |
| 4 | Gallu defnyddio ymchwil i'r farchnad a marchnata ar gyfer busnes chwaraeon | 4.1 | Cynllunio ymchwil i'r farchnad sy'n gysylltiedig â busnes chwaraeon dewisedig, ac sy'n briodol ar ei gyfer |
| | | 4.2 | Cynnal ymchwil i'r farchnad sy'n gysylltiedig â busnes chwaraeon dewisedig, ac sy'n briodol ar ei gyfer, cofnodi a dehongli'r canlyniadau |
| | | 4.3 | Disgrifio gweithgareddau marchnata busnes chwaraeon dewisedig |
| | | 4.4 | Llunio cynllun hyrwyddo ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth chwaraeon dewisedig, gan ddefnyddio ymchwil i'r farchnad |





Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Gofynion o ran Staff



## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill wrth wneud cais. Rhaid i diwtoriaid hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd gofyn i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag ato. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau fel:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill wrth wneud cais.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhau Ansawdd Mewnol wrth gyflwyno cais. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr Ansawdd Mewnol â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.

Sports, Leisure and Recreation

# Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu defnyddio. Nid yw pob term o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster hwn.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau i wella eglurder neu arddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sy'n bodoli eisoes i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e. yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ayyb.). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol ar gyfer gweithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'gymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n codi o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodwyd. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant rhesymegol, trefnus o wybodaeth, adnoddau a chamau/digwyddiadau gofynnol sy'n galluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, p'un a ydyn nhw'n cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol ychwanegu at eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth fanwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Diagnosio | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Derbyn rheswm neu benderfyniad neu farn ar sail rhesymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng 2 neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng 2 neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barn neu bersbectif. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Gweler hefyd 'esbonio' isod. |

Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif y Myfyriwr: | |
| Cwrs: | |
| Uned(au): | |
| Meini Prawf: | |
| Dyddiad: | |
| Sylwadau: | |
| | |
| Penderfyniad: | |
| Camau Pellach: | |
| Asesydd: | |
| Swydd: | |

# Adroddiad Sicrhau Ansawdd Mewnol

| Cymhwyster: | | | |
|---|---|---|---|
| Asesydd: | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | |
| Enw'r Ymgeisydd | Uned(au) a Samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau |
| | | | |
| | | Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | |
| | | Llofnod yr Asesydd | |





Copyright © Focus Awards. All rights reserved